HM Prison & Probation Service

Disgrifiad Swydd

Band 4

Proffil Grŵp - Hyfforddwr Galwedigaethol

Disgrifiad Swydd – Hyfforddwr Galwedigaethol: Adeiladu

Cyfeirnod y Ddogfen	OR-JES-551-JD-B4 : HG : Adeiladu
Math o Ddogfen	Rheoli
Fersiwn	7.0
Dosbarthiad	Swyddogol
Dyddiad Cyhoeddi	17 Mawrth 2020
Statws	Gwaelodlin
Cynhyrchwyd gan	Y Tîm Cymorth a Sicrwydd Gwerthuso Swyddi
Awdurdodwyd gan	Y Tîm Dyfarnu
Tystiolaeth ar gyfer y DS	

Disgrifiad Swydd

Teitl Swydd	Hyfforddwr Galwedigaethol : Adeiladu
Proffil Grŵp	Hyfforddwr Galwedigaethol

Lefel yn y Sefydliad	Darparu
Band	4

Trosolwg o'r swydd	Mae hon yn swydd hyfforddi anweithredol mewn sefydliad.
Crynodeb	Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am hyfforddi carcharorion drwy feithrin perthnasoedd effeithiol, priodol a chefnogol drwy eu rheoli mewn modd rhagweithiol a hyrwyddo'r agenda 'gweddustra'. Cyfrannu at gynllunio dedfrydau a lleihau aildroseddu. Dilyn arferion carcharu diogel a chydymffurfio â safonau diogelwch cenedlaethol a lleol. Cyfrifol am lefel uwch o ddiogelwch, cynhyrchiant, trefn dda a glendid yn y gweithdai. Mae hon yn swydd anweithredol heb unrhyw gyfrifoldebau rheolaeth linell.
Cyfrifoldebau, Gweithgareddau a Dyletswyddau	Bydd yn rhaid i ddeiliad y swydd gyflawni'r cyfrifoldebau, y gweithgareddau a'r dyletswyddau canlynol: • Darparu hyfforddiant adeiladu i garcharorion er mwyn gofalu am anghenion a gobeithion y sefydliad o ran gweithio tuag at gael achrediadau sy'n cael eu cydnabod gan ddiwydiant. • Cymryd rhan yn y broses o ddewis carcharorion ar gyfer y gweithdy/lle gwaith gan gynnal asesiadau o anghenion dysgu'r carcharorion. • Cynefino'r carcharorion yn y gweithdy/lle gwaith, a'u hyfforddi mewn agweddau fel Iechyd a Diogelwch, COSHH (Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd), a defnyddio peiriannau ac offer. • Rhoi cymorth i'r carcharorion fel y bo'r angen; teilwra'r gofynion dysgu a hyfforddi i anghenion yr unigolion. • Cadw a diweddaru cofnodion dysgwyr, gan gynnwys eu Cynllun Dysgu Unigol. • Asesu a gwerthuso sgiliau carcharorion, gan gynnwys lefelau 1 a 2 o'r Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol a chymwysterau perthnasol eraill sy'n cael eu cydnabod gan ddiwydiant. • Bod mewn cysylltiad â staff Dysgu a Sgiliau yn y Pencadlys fel y bo'r angen. • Cofrestru, goruchwylio, monitro, asesu ac achredu dysgwyr yn unol â gofynion cyrff dyfarnu. • Cadw safonau ansawdd cyrff dyfarnu, a chyfrannu at waith gwirio mewnol ac allanol fel y bo'r angen. • Gosod nodau ac amcanion dysgu, adolygu a darparu adborth ar gynnydd carcharorion. • Darparu cymorth a chyngor ar gyfleoedd gyrfa ar gyfer y maes gwaith. Cyflawni tasgau hyfforddi eraill, gan gynnwys y canlynol: • Goruchwylio a chynnal disgyblaeth carcharorion sy'n cael hyfforddiant, addysg neu brofiad gwaith. Cyfrifol am berfformiad, cymhelliant, disgyblaeth, arfarnu a datblygu carcharorion. • Agor a llenwi ffurflenni ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm), VRIR (Adroddiadau Digwyddiadau Lleihau Trais) ac Adroddiadau SIR (Gwybodaeth am Ddiogelwch) fel y bo'r angen, a chyfrannu at adroddiadau IEP (Cymhellion a Breintiau a Enillir). • Chwilio carcharorion wrth iddyn nhw gyrraedd a gadael yr ystafell hyfforddi/gweithdy.

	• Cofnodi presenoldeb a chymeradwyo'r oriau a weithiwyd gan garcharorion a chyflogau gan gynnwys cofnodi darnau gwaith ar gyfer carcharorion unigol mewn rhai gweithdai. • Cynnal gwiriadau o ddeunyddiau yn y gweithdai, a sicrhau bod y cloeon, y bolltau a'r bariau yn y gweithdy yn ddiogel. • Cyfrannu at adroddiadau carcharorion gan gynnwys parôl, cynllunio dedfrydau a Chynllun Dysgu Unigol. • Cwblhau gwybodaeth fonitro'r gyfundrefn a diweddaru cofnodion hyfforddiant carcharorion Cofnodi namau offer / cyfarpar sydd angen eu cynnal a'u cadw a'u hatgyweirio. • Cynnal asesiadau risg ac iechyd a diogelwch ar nwyddau traul dan ganllawiau Carcharu Mwy Diogel. • Archebu deunyddiau ac amcangyfrif defnydd er mwyn cyrraedd targedau dysgu'r gwaith. Cymryd rhan mewn hunanarchwiliadau ac yn y gwaith o gyflawni dangosyddion darparu gwasanaeth. • Gwneud gwaith gweinyddol i gefnogi'r gweithdy i redeg yn ddidrafferth. • Agor llwybrau dysgu unigol ar gyfer y dysgwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt. • Lleoli lefelau llythrennedd a rhifedd dysgwyr unigol ar gyfer eu hasesiad cyntaf, a'u cefnogi i ddatblygu eu sgiliau ymhellach. • Cynghori a chynorthwyo dysgwyr i geisio cyfleoedd cyflogaeth priodol a pherthnasol ar ôl iddynt gael eu hadsefydlu. • Cyfathrebu'n gyson gan ddefnyddio rhwydwaith radio yn unol â'r Strategaeth Ddiogelwch Leol (LSS) • Goruchwylio a rheoli carcharorion yn weddus a diogel wrth gyflawni pob gweithgaredd. • Deall, gweithredu a chydymffurfio â pholisïau lleol a chenedlaethol. • Sefydlu, datblygu a chynnal perthnasoedd proffesiynol gyda'r carcharorion a'r staff. • Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd perthnasol fel y bo'r angen. Mae'r dyletswyddau/cyfrifoldebau a restrir uchod yn disgrifio'r swydd fel y mae ar hyn o bryd ac ni fwriedir i'r rhestr fod yn hollgynhwysfawr. Disgwylir i ddeiliad y swydd dderbyn addasiadau rhesymol a thasgau ychwanegol sydd ar lefel debyg a allai fod yn angenrheidiol. Efallai y bydd addasiadau sylweddol yn golygu y bydd angen ailystyried y swydd o dan y Cynllun Gwerthuso Swyddi, a chaiff hyn ei drafod yn y lle cyntaf â deiliad y swydd. Gallu cyflawni holl agweddau llafar y swydd yn hyderus drwy gyfrwng y Saesneg neu'r Gymraeg (pan nodir hynny yng Nghymru).

Ymddygiad	• Arweinyddiaeth • Cyfathrebu a Dylanwadu • Cydweithio • Rheoli Gwasanaeth o Safon
Cryfderau	Argymhellir bod y cryfderau'n cael eu dewis yn lleol, argymhellir 4-8.
Profiad Hanfodol	• Gallu dangos o leiaf 2 flynedd o brofiad galwedigaethol perthnasol ym maes Adeiladu. • Meddu ar y gallu i ddarparu cymwysterau Galwedigaethol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr hyd at Lefel 2 mewn Teilsio Waliau a Lloriau. • Meddu ar naill ai Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma Lefel 1 mewn Sgiliau Adeiladu Sylfaenol. • Wrth drosglwyddo i sefydliad Pobl Ifanc, bydd gofyn i ddeiliad y swydd lwyddo mewn asesiad i ddangos ei fod yn addas i weithio gyda Phobl Ifanc.

Technegol Gofynion	• Meddu ar y cymhwyster Asesydd perthnasol neu fod yn barod i'w gael o fewn 6 mis i'w benodi i'r rôl. • Naill ai meddu ar neu gwblhau hyfforddiant penodol i feddu ar y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y maes arbenigol.
Gallu	

Cymhwyster Sylfaenol	• Bydd archwiliadau adnabod a diogelwch yn cael eu cynnal ar bob ymgeisydd cyn y bydd yn cychwyn yn y swydd. • Bydd yn rhaid i bob ymgeisydd allanol gyflawni cyfnod prawf o 6 mis. Bydd rhaid i ymgeiswyr mewnol gyflawni cyfnod prawf os nad ydynt eisoes wedi cyflawni cyfnod prawf yn y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf. • Mae'n rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan y Gwasanaeth Carchardai a Phrawf.

Oriau Gwaith (Oriau Anghymdeithasol) Lwfansau	Wythnos waith 37 awr (safonol). Bydd y Rheolwr Recriwtio yn cadarnhau'r trefniadau Gweithio Oriau Anghymdeithasol, a dim ond pan fydd hynny'n berthnasol y bydd tâl am hynny: Gweithio Orau Anghymdeithasol: Mae'r swydd yn golygu gweithio oriau anghymdeithasol yn rheolaidd fel rhan o ymrwymiad shifftiau arferol, a thelir 17% yn ychwanegol at eich cyflog sylfaenol i gydnabod hyn. Mae oriau anghymdeithasol yn golygu oriau nad ydynt rhwng 07.00 a 19.00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac yn cynnwys gweithio gyda'r nos, dros nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Banc / cyhoeddus.

Proffil Llwyddiant

Ymddygiad	Cryfderau Argymhellir bod y cryfderau'n cael eu dewis yn lleol – argymhellir 4-8	Gallu	Profiad	Technegol
Arweinyddiaeth			Gallu dangos o leiaf 2 flynedd o brofiad galwedigaethol perthnasol ym maes Adeiladu.	Meddu ar y cymhwyster Asesydd perthnasol neu fod yn barod i'w gael o fewn 6 mis i'w benodi i'r rôl.
Cyfathrebu a Dylanwadu			Meddu ar y gallu i ddarparu cymwysterau Galwedigaethol o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr hyd at Lefel 2 mewn Teilsio Waliau a Lloriau.	Naill ai meddu ar neu gwblhau hyfforddiant penodol i feddu ar y cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer y maes arbenigol.
Cydweithio			Meddu ar naill ai Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma Lefel 1 mewn Sgiliau Adeiladu Sylfaenol.	
Rheoli Gwasanaeth o Safon			Wrth drosglwyddo i sefydliad Pobl Ifanc, bydd gofyn i ddeiliad y swydd lwyddo mewn asesiad i ddangos ei fod yn addas i weithio gyda Phobl Ifanc	